

## Cofion

- Anfonwn ein cofion at Nerys Jones (Saron) sydd wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau yr wythnos hon. Hyderwn y bydd yn teimlo'n well yn fuan ac y caiff ddod adre ar hyn. Anfonwn ein cofion hefyd at Jared Roberts (Llanefydd) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ar ôl iddo dorri ei goes. Dim pêl-droed am dipyn bach rwan yn anffodus, ond gobeithio y caiff yntau wellhad llwyr a buan.
- Parhawn i gofio hefyd am yr holl deuluoedd yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid. Gweddïwn y byddant yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.

## Canu Carolau

Mae sawl un o'n haelodau mewn cartrefi gofal ar hyn o bryd ac fe fyddai'n hyfryd medru eu cynnwys nhw yn ein dathliadau wrth inni baratoi ar gyfer y Nadolig. Tybed fyddai rhai ohonoch awydd ymuno â pharti fyddai'n mynd i gartrefi i ganu carolau? Os oes gennych ddi-ddordeb, wnewch chi gysylltu hefo Mair **erbyn dydd Sul, Tachwedd 26ain**, os gwelwch yn dda? Byddai'n dda gwybod pwy sydd ar gael yn ystod y dydd a/neu fin nos cyn i ni wneud trefniadau pendant, ac wedyn gallwn hefyd drefnu noson i ymarfer.



## I ddod

- **CYFARFOD BLAENORIAID GOFALAETH BRO ALED** nos Fercher, Tachwedd 29ain yn Llanefydd am 7.30.
- **GWASANAETH CAROLAU BRO ALED** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Sul, Rhagfyr 10fed am 6.00.
- **OEDFA NADOLIG I'R FRO** – oedfa deulu yng Nghapel Llanefydd **am 10.30** bore Sul, Rhagfyr 24ain.
- **SWPER NADOLIG BRO ALED** yn Ffestri Llansannan, nos Iau, Rhagfyr 28ain am 7.30.
- **TAITH GERDDED HAMDDENOL I'R FRO** dydd Gwener, Rhagfyr 29ain. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 31ain **am 10.30** yng Nghapel Cefn Meiriadog.

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536  
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.



# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 19<sup>eg</sup> Tachwedd 2017

Darlleniad y Dydd

Amos 9:13-15

(BCND tud.838 / BCN tud.763)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso i oedfaon Bro Aled heddiw. Gweddïwn heddiw y byddwn yn dod i ddeall mwy am ffyrdd yr Arglwydd a'r holl bethau mae wedi ei wneud trosom. Gweddïwn hefyd am sicrwydd o ffydd mewn byd sy'n llawn o ansicrwydd.

Ydych chi erioed wedi cael adeg yn eich bywyd ble mae'n ymddangos na all unrhyw beth ei ddifetha? Mae popeth yn union fel y dylai fod, ac mae fel petai'r byd wedi paratoi'r foment honno ar eich cyfer? Efallai fod hynny pan ar eich gwyliau efo'r teulu, neu efallai yn eich gwaith pan mae popeth yn mynd yn dda. Neu efallai, wrth i chi yrru, fod pob golau yn troi'n wyrdd o'ch blaen ac rydych yn teimlo fel brenin y bydysawd? Efallai mai dim ond y fi sy'n teimlo'r un olaf yna! Mae'n digwydd weithiau fod pob dim yn disgyn i'w le ac mae fel petai rhyw ddarn jig-sô wedi ei roi yn ei le yn eich calon. Hyfryd!

Y peth anodd am y sefyllfaoedd yma ydy eu bod nhw drosodd yn rhy sydyn ac wedyn yn dod yn rhan o'n gorffennol yn hytrach na'n presennol. Gallwn edrych yn ôl ar yr adegau yma a gwenu, ond dydy'r teimlad o heddwch dwfn ddim yna mwyach, a'r darn jig-sô wedi ei ddisodli.

Dewch i ni edrych ar ein darlleniad wythnos yma o Amos pennod 9. Mae Amos yn proffwydo mewn cyfnod oedd yn heddychlon, ond ar drothwy amser rhyfelgar, anodd i deyrnasoedd Jwda ac Israel. Prif ffrwd ei neges ydy fod barn perffaith Duw ar ei ffordd i'r bobl oedd yn anffyddlon a gwrthryfelgar i Dduw ac y byddent yn cael eu gwasgaru fel yd yn y gwynt. Oedd, roedd Amos ar drothwy cyfnod caled iawn.

Yna down at ddiwedd y llyfr, ac at ein darlleniad yr wythnos yma. Ar ôl y farn, mae'n dweud yma y daw diwrnod pan fydd Duw yn rhoi pob dim yn ôl i'w bobl. Ar y dydd hwnnw, bydd y tir mor ffrwythlon fel bod y cynhaeaf heb orffen cyn i'r aredig ddechrau eto! Bydd y gwinlannoedd ar y mynyddoedd mor ffrwythlon fel bod y mynyddoedd eu hunain fel petaent yn diferu o win, a'r tir hyd yn oed yn troi'n felys. Bydd y cyfnod yn un heddychlon, gyda digon o amser ac adnoddau i yfed gwin a garddio, yn hytrach na rhyfela. Bydd popeth fel y dylai fod.

At beth mae'n cyfeirio? Mae'n edrych ymlaen at y dyfodol pan fydd Iesu yn dod i deyrnasu yn derfynol. Bydd heddwch dwfn dros y ddaear ac yng nghalonau pawb sydd wedi dilyn a derbyn Iesu yn Arglwydd. Bydd hwn yn amser pan fydd popeth fel y dylai fod. Bydd y rhai sydd wedi derbyn a dilyn Iesu yn cael eu cadw am byth yn nheyrnas perffaith Duw – teyrnas fydd byth yn syrthio, nac yn gwanhau.

Tybed fyddwn ni'n rhan o'r deyrnas honno?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled



Gwion

Darlleniad Wythnos Nesaf

Ioan 3:27-30 (BCND tud.102 / BCN tud.94)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 19<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 22<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Chwiorydd Bro Aled** – Swper a Sgwrs yn Ffestri Llansannan **am 7.00** yng nghwmni Judith Jones o'r Gaiman, Patagonia sydd yn Weithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Henaduriaeth Dyffryn Conwy. Pris: £5.00. Bydd yr elw yn mynd tuag at gasgliad Sasiwn Chwiorydd y Gogledd a gynhelir yn Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yn 2018.
- Iau – 23<sup>ain</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.  
➤ **Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod am 7.00 yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych. Yn dilyn y materion busnes, ceir anerchiad y Llywydd, Mrs Nancy Jones ac fe weinyddir y Cymun gan y Parch. Graham Floyd.
- Gwener – 24<sup>ain</sup> ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sadwrn – 25<sup>ain</sup> ➤ **Cefnogi** – digwyddiad Cymraeg i bobl sy'n rhan o'r diwydiant amaethyddol ym Mryn-y-groes, Y Bala am 2.00. Cymdeithas, cefnogaeth, astudiaeth a lluniaeth. Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 26<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 26<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 a Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 26<sup>ain</sup> ➤ Croeso i bawb i wasanaeth arbennig i dathlu 200 mlwyddiant Capel y Groes am 2.00. Bydd paned i ddilyn yn Neuadd y Plwyf. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac i'r plant a'r oedolion yn Groes am 10.00.

## Cyhoeddiadau

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deuluol yn Llansannan am 10.30 a bydd cinio a phwddin i ddilyn yn y festri i godi arian i apêl arbennig Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn 2017 (Apêl Corwynt Cariad) i helpu gwaith Cymorth Cristnogol yn Ynysoedd y Pilipinas. Oedolion: £10.
- Llun – 20<sup>fed</sup> ➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.  
➤ Cymdeithas Llansannan: Ymweliad â Chanolfan Dydd, Waengoleugoed, Llanelwy am 7.00. (Os hoffech gael lifft neu os oes gennych le i roi lifft i eraill, dewch i faes parcio'r Capel yn Llansannan erbyn 6.30, os gwelwch yn dda.) Mae yno 'siop' sy'n gwerthu pob math o bethau – o fwydydd, i eitemau newydd tebyg i fenyg / sanau neu anrhegion – a thrwy werthu'r eitemau hyn i rai sy'n galw yno, maent yn codi swm sylweddol ar gyfer rhedeg y Ganolfan. Felly, os oes modd i chi ddod â rhywbeth hefo chi, byddai hynny'n cael ei werthfawrogi.
- Mawrth – 21<sup>ain</sup> ➤ Paned a Sgwrs yn Ffestri Llansannan o 1.30-3.30. Croeso i bawb.
- Mercher – 22<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW (19eg)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 26<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.  
➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn heddiw, ond bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun dydd Sul, Rhagfyr 3ydd am 2.00. (SYLWCH AR Y NEWID).

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 19<sup>eg</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod yno am 2.00.
- Llun – 20<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Clwb Ysgol Sul Saron yn festri'r capel am 3.15.
- Sul nesaf – 26<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 26<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.